

Dim ond arosfan

*“Cofia amdano... cyn i’r llwch fynd yn ôl i’r ddaear lle y bu ar y cychwyn.”
(adn. 6–7)*

Beth am ddarllen Y Pregethwr 12:1–7 ac yna myfyrio

Mae’n siŵr eich bod wedi clywed rhai pobl yn mynegi’r dyhead nad oes yna nefoedd ond gellir troi’r byd yma yn nefoedd. Mae’n siŵr, er mwyn bod yn deg, bod nifer o’r bobl sy’n mynegi’r dyhead yma yn ddidwyll iawn yn eu credo. Gwleidyddion, yn benodol. Ond, gallwch fod yn ddidwyll ac yn anghywir. Nid ymdrech ar eu rhan yw hon i dawelu eu hymwybyddiaeth o alltudiaeth, ond ymdrech sydd yn dod o dywyllwch eu calon.

Nid y byd yma yw pen draw ein siwrnai, dim ond arosfan. Os gwnawn y byd y lle mwyaf cyfforddus, ni fydd hyn yn bodloni ein henaid. Yn ysgrifeniadau Milton, fe gofiwn fod yr angylion a syrthiasant yn ceisio perswadio ei gilydd nad oedd y lle cynddrwg â hynny. Dyna’r hyn mae cynifer o wŷr a gwragedd yn ei wneud. Maent am geisio perswadio ei gilydd, a pherswadio eraill, y gellir edrych heibio i’r agweddau hyll yna sydd ar fywyd, ac yna edrych ar y byd fel math o nefoedd. Wrth edrych o ambell i gyfeiriad, mae’r byd yn lle prydferth, ond o gyfeiriad arall, mae’n lle drwg. Mae’n fyd o fforestydd prydferth, o lynnoedd, mynyddoedd, moroedd prydferth, ac eto o fewn i bob calon ddynol, mae clefyd pechod, ac ni all yr amgylchfyd ddileu hwn.

Dywedodd William Kirk Kilpatrick: “Ar i fyny mae’r meddwl iach yn edrych, nid i lawr. Mae’n gweld golau ac mae hyn yn ei arwain i feddwl am yr haul, nid gweld haul a bodloni ar olau lamp.” Dyna yw dylanwad pechod. Mae’n peri’r fath niwed i’r enaid fel nad ydym yn edrych i fyny o gwbl, heb sylweddoli fod o’n mewn ni hiraeth am dragwyddoldeb. Rydym yn bodloni ar yr hyn sydd, yn hytrach na’r hyn fydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 15:1–20; Luc 6:43–45; Diar. 4:23

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam na ellir gwneud y byd yma yn fath o nefoedd?
2. Beth ydym i’w amddiffyn?

Gweddi

O Dduw, yr wyf yn ymwybodol o’r clwy mae pechod wedi ei greu yn fy enaid, clwy sydd yn bodloni ar y tymhorol, yn hytrach na’r tragwyddol. Achub ni, rhag i ni fodloni ar oleuadau lampau yn hytrach na golau yr haul. Rydym yn gweddio hyn yn enw Iesu. Amen.